Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Practis Deintyddol Llangyfelach
# Dyddiad y gweithgarwch: 8 Awst 2022

Dyddiad cyhoeddi: 26 Medi 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan fyddant wedi'u cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu drwy


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80364-881-1

© Hawlfraint y Goron 2022

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Llangyfelach fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a gynigir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis ar 8 Awst 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei wasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r prif lwybrau ymholi canlynol:

- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth iddynt gyrchu gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau yn cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Yr asesiad risg amgylcheddol diweddaraf
- Asesiad risg COVID-19

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiodd rheolwr y practis y newidiadau a wnaed i'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod y practis yn gallu cynnal mesurau cadw pellter cymdeithasol ar gyfer staff a chleifion. Roedd y rhain yn cynnwys cyfyngu ar nifer y cleifion a'r staff yn y practis ar yr un tro, ad-drefnu mannau aros drwy wahanu cadeiriau, a chyflwyno system un ffordd drwy'r practis.

Dywedodd rheolwr y practis fod pob un o'r tair ystafell driniaeth yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol[1] a gosodwyd unedau awyru mecanyddol yn yr ystafelloedd triniaeth er mwyn hwyluso'r broses o gael gwared ar aer halogedig. Roedd yr ystafelloedd triniaeth wedi'u tacluso a dim ond yr offer angenrheidiol ar gyfer pob triniaeth oedd ar ôl yn yr ystafell. Roedd storfa ganolog ar wahân yn cynnwys offer a chyfarpar glân i'w defnyddio.

Roedd y cleifion yr oedd angen iddynt weld y deintydd yn cael eu gwahodd i ddod i'r practis drwy apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw yn unig. Defnyddiwyd system dyddiadur ar-lein i drefnu cyfnod segur[2] ychwanegol ac amser glanhau ychwanegol yn dibynnu ar y weithdrefn ddeintyddol oedd wedi'i chwblhau. Eglurodd rheolwr y practis y cysylltwyd â'r cleifion dros y ffôn cyn eu hapwyntiad a gofynnwyd cyfres o gwestiynau iddynt i bennu a oeddent yn peri risg o drosglwyddo COVID-19. Cadarnhawyd yr wybodaeth hon wrth iddynt gyrraedd ar gyfer eu hapwyntiad hefyd.

Dywedwyd wrthym fod y newidiadau wedi effeithio ar allu'r practis i ddarparu gweithgareddau cofrestredig a bod rhestrau aros yn ystod cyfyngiadau COVID-19 wedi cynyddu. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod y rhestrau aros bellach yn ôl i lefelau cyn-

[1] Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r awyr neu drwy ddefnynnau.

[2] Cyfnod segur yw'r amser mae ystafell driniaeth yn segur yn dilyn gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol, sy'n rhoi amser i unrhyw ddefnynnau glirio cyn glanhau a dihalogi.

bandemig. Fodd bynnag, oherwydd mwy o amser glanhau ac amser segur, bu gostyngiad bach yn nifer y cleifion y gellid eu gweld yn ddiogel mewn sesiwn. Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau brys yn cael eu blaenoriaethu dros archwiliadau arferol.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod yr arwyddion a oedd yn cael eu harddangos yn y practis yn Gymraeg ac yn Saesneg, a dywedwyd wrthym fod rhestr o ddeintyddion Cymraeg ar gael yn y dderbynfa ar gyfer y cleifion hynny sy'n dymuno cael eu triniaeth ddeintyddol yn Gymraeg. Roedd rhai o staff y practis wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Archwiliad a chynllun gweithredu diweddaraf Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[3]
- Polisi rheoli heintiau
- Polisi COVID-19
- Polisi glanhau
- Amserlenni glanhau'r ddeintyddfa
- Cofnodion gwiriadau dyddiol o'r peiriannau awtoclaf
- Gweithdrefn glanhau â llaw

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Adolygwyd yr archwiliad dihalogi diweddaraf a gynhaliwyd yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 a'r cynllun gweithredu. Roedd y rhain yn dangos bod y practis wedi mynd i'r afael â'r holl feysydd i'w gwella a nodwyd gan yr archwiliad.

Cawsom rai dogfennau yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau cyn y gwiriad ansawdd, ac roedd y rhain yn cynnwys polisi rheoli heintiau cynhwysfawr, polisi glanhau'r amgylchedd, a manylion prosesau glanhau â llaw dyddiedig Ebrill 2022 gyda dyddiadau ar gyfer cynnal adolygiadau rheolaidd. Gwelsom gofnodion wedi'u cwblhau ar gyfer dihalogi offer a chyfarpar deintyddol dros y pythefnos diwethaf.

[3] Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad o gydymffurfedd dihalogi. Datblygwyd yr archwiliad gan ddeintyddion yng Nghymru a chaiff ei gefnogi gan yr Adran Ddeintyddol o fewn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o staff yn derbyn diweddariadau COVID-19 rheolaidd trwy e-bost ac yn ystod ‘sgrymiau’ rheolaidd, a chadarnhaodd rheolwr y practis fod gwybodaeth wedi'i diweddaru ar gael i'r holl staff trwy blatfform ar-lein. Roedd cyfathrebu rheolaidd wedi sicrhau bod pawb wedi derbyn cyngor ac arweiniad cyfredol ar COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol a bod hyfforddiant ar gyfarpar diogelu personol, gan gynnwys gwisgo a diosg[4] cyfarpar diogelu personol, wedi cael ei gyflwyno i'r holl staff. Cadarnhawyd bod rhywfaint o hyfforddiant yn cael ei gwblhau trwy borth hyfforddi ar-lein. Roedd hyfforddiant arddull chwarae rôl hefyd yn cael ei gwblhau yn bersonol ac roedd posteri a siartiau llif yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r practis i sicrhau bod staff yn gymwys ac yn hyderus i ddarparu gofal diogel ac effeithiol yn ystod cyfyngiadau COVID-19.

Disgrifiwyd y broses o ddod o hyd i ddigon o gyfarpar diogelu personol. Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd yn cefnogi'r practis i ddarparu cyflenwadau o gyfarpar diogelu personol. Er mwyn sicrhau bod lefelau stoc digonol yn y practis, roedd rheolwr y practis yn cwblhau gwiriad stoc wythnosol o gyfarpar diogelu personol ac yn ail-archebu stoc pan oedd angen. Roedd y practis hefyd yn rhannu cyfarpar diogelu personol gyda’r pymtheg practis arall yn y grŵp, a oedd yn helpu gydag unrhyw brinder o ran cyfarpar.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i’w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Fe wnaethom archwilio p’un a yw’r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac a ydynt wedi’u hyfforddi’n briodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Adroddiad Rheoliad 23 (ymweliad yr unigolyn cyfrifol)
- Polisi cydsyniad gwybodus
- Cynllun parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff
- Datganiad o ddiben[5]
- Taflen gwybodaeth i gleifion[6]

[4] Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg – tynnu cyfarpar diogelu personol.
[5] Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol yn unol ag Atodlen 1 i'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). Mae hyn yn cynnwys nodau ac amcanion y practis ac enwau a chymwysterau'r deintyddion a'r staff deintyddol. Yn ogystal â hyn, dylai restru'r mathau o driniaeth, y cyfleusterau, a'r holl wasanaethau eraill a ddarperir yn y practis deintyddol preifat, neu at ddibenion y practis, gan gynnwys manylion ynglŷn â'r ystod o anghenion y bwriedir i'r gwasanaethau hynny eu diwallu.
[6] Mae'r daflen gwybodaeth i gleifion yn cael ei rhoi i gleifion ac yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol gan

- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Archwiliad cardiau cofnod

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cawsom gopi o'r datganiad o ddiben a'r daflen gwybodaeth i gleifion, a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig. Cawsom sampl o bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Roedd y rhain wedi'u dyddio a'u eu llofnodi ac yn cynnwys dyddiad adolygu.

Gwelsom gopi o'r adroddiad blynyddol, a baratowyd yn unol â Rheoliad 23 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Disgrifiodd rheolwr y practis y broses sydd ar waith ar gyfer adrodd am unrhyw ddigwyddiadau. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw ddigwyddiadau'n cael eu cofnodi a'u trafod ar yr un diwrnod ac yna'n cael eu hadrodd i AGIC ac asiantaethau eraill fel y bo'n briodol.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y practis wedi aros ar agor drwy gydol y pandemig. Roedd y practis yn cynnig brysbennu o bell,[7] cyngor dros y ffôn a gwasanaethau cyfeirio yn ystod cyfyngiadau COVID-19. Roedd y practis yn cynnig apwyntiadau drwy wasanaeth Attend Anywhere GIG Cymru,[8] sef gwasanaeth ymgynghori fideo ar gyfer cleifion nad oeddent yn gallu mynychu'r practis yn bersonol. Cynigiwyd apwyntiad i gleifion agored i niwed yr oedd angen eu gweld fel achosion brys ar ddechrau neu ddiwedd y sesiwn. Roedd hyn yn sicrhau y gellid darparu gofal i'r cleifion yn unol â'u hanghenion.

Dywedwyd wrthym nad oedd absenoldeb staff wedi effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau. Roedd y practis yn gweithredu o fewn grŵp o bractisau ar draws De Cymru ac roedd y staff yn symud rhwng y safleoedd i gyflenwi yn ystod absenoldeb pan oedd angen. Fe'n hysbyswyd bod polisïau a gweithdrefnau'n gyson ar draws pob practis yn y grŵp.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddiant, a oedd yn dangos cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys hyfforddiant dadebru cardio-anadlol, atal a rheoli heintiau, diogelu, a hyfforddiant tân. Eglurodd rheolwr y practis y broses ar gyfer sicrhau bod hyfforddiant yn gyfredol, ac roedd staff yn parhau i ddefnyddio pecynnau hyfforddiant ar-lein a hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Dywedwyd wrthym mai nod y practis yw gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn barhaus. Cafwyd tystiolaeth o hyn yn y dogfennau archwilio a ddarparwyd gyda'r hunanasesiad, a oedd yn cynnwys archwiliad o ansawdd radiograffau, archwiliad o gardiau cofnod, ac archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd adroddiadau archwilio wedi'u dyddio, camau gweithredu wedi'u nodi, a themâu wedi'u monitro.

Atodlen 2 i'r rheoliadau uchod.

[7] Dyrannu graddau brys er mwyn penderfynu ar drefn y driniaeth o blith nifer o gleifion.

[8] Gwasanaeth apwyntiad fideo ar-lein.

Dywedwyd wrthym fod offer a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Roedd gwiriadau wythnosol o gyffuriau brys ac offer ategol eraill yn cael eu cofnodi. Roedd gwiriadau ar ddyddiadau dod i ben meddyginiaeth yn cael eu cofnodi a'u cymeradwyo yn fisol.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella a phryderon uniongyrchol yn ystod ein gwiriad ansawdd y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn:

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd

- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Cynllun gwella ar unwaith

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Practis Deintyddol Llangyfelach, 956 Heol Llangyfelach, Y Clâs, Abertawe SA5 7HR |
| Dyddiad y gweithgarwch: | 8 Awst 2022 |

Mae’r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy’n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae’n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Nid oedd angen unrhyw welliannau ar unwaith. | | | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o’r gwasanaeth sydd â’r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad B: Cynllun gwella

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Practis Deintyddol Llangyfelach, 956 Heol Llangyfelach, Y Clâs, Abertawe SA5 7HR |
| Dyddiad y gweithgarwch: | 8 Awst 2022 |

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddi gael ei chwblhau.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Nid oedd angen unrhyw welliannau ar unwaith. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**